Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

Lefel y gweithgarwch dilynol: Mesurau Arbennig

Ysgol Gynradd Meidrim

Meidrim
Sir Gaerfyrddin
SA33 5QN

Dyddiad yr ymweliad: Rhagfyr 2025

gan

Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Meidrim wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Mynd i'r afael â'r mater diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

Mae arweinwyr wedi cydweithio'n llwyddiannus â'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r materion diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad craidd. O ganlyniad, ar amser yr ymweliad, nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder mwyach.

### A2. Diffinio a datblygu cyfrifoldebau arweinwyr er mwyn gweithredu'n fwy strategol gan sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella

Dros amser, mae'r pennaeth dros dro wedi datblygu tîm effeithiol o staff sy'n ymroi'n llwyr i'w rolau strategol a gwerthoedd yr ysgol.

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi cydweithio'n llwyddiannus i sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer gwelliant. Gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, mae arweinwyr wedi datblygu amserlen fanwl a dulliau hunanwerthuso clir a thrylwyr i adnabod cryfderau'r addysgu a dysgu, a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r llywodraethwyr wedi eu neilltuo i fod yn gyfrifol am flaenoriaethau penodol, yn ôl eu harbenigedd, ac wedi cael hyfforddiant clir gan swyddogion yr awdurdod lleol. Bellach, mae aelodau'r corff llywodraethol yn rhan weithredol o'r prosesau gwella, drwy fynychu cyfarfodydd rheolaidd, a thrwy ymgymryd â gweithgareddau craffu ar lyfrau a siarad â disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gynnydd ym medrau'r disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Mae pob aelod o staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu hyfforddiant ac ymweld ag ysgolion i arsylwi ar arfer dda. Cânt eu hannog i ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol ac arbrofi â'u dulliau addysgu yn rheolaidd. O ganlyniad, mae staff yn addasu eu darpariaeth

o fewn a thu allan i'r dosbarth yn llwyddiannus er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm.

### A3. Cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn fwriadus ar draws y meysydd dysgu dros amser gan osod her briodol i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni hyd eithaf eu gallu

Mae staff, gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, wedi dylunio cwricwlwm pwrpasol ar gyfer y disgyblion. Maent yn cynllunio gweithgareddau amrywiol er mwyn cefnogi'r disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn amrywiaeth o gyd-destunau diddorol. Mae staff yn ystyrlon o ofynion bob maes dysgu a phrofiad ac maent yn cynnwys llais y disgybl yn rheolaidd wrth gynllunio gweithgareddau dysgu.

Mae staff wedi ymgymryd â chyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol ar sut i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Golyga hyn fod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiadau ym medrau'r disgyblion. Yn ogystal, mae staff wedi ymweld ag ysgolion lleol i arsylwi ar arferion effeithiol. Mae effaith y dysgu proffesiynol hwn yn amlygu ei hun fwyfwy yn yr addysgu sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion.

Mae athrawon yn darparu tasgau sydd wedi eu teilwra ar gyfer anghenion y disgyblion gan sicrhau her briodol i'r rhan fwyaf ohonynt. Defnyddia athrawon amrediad o strategaethau addysgu i ddiwallu anghenion y disgyblion. Mae staff ac arweinwyr yn olrhain cynnydd y disgyblion yn effeithiol ac yn darparu cymorth, fel y bo angen. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u hoed a'u gallu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddatblygu eu medrau iaith a mathemateg yn adeiladol dros amser. Mae cyfleoedd bwriadus wedi eu cynllunio i'r disgyblion ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol o fewn cyd-destunau diddorol. O ganlyniad, mae medrau llythrennedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn ogystal, mae cyfleoedd penodol wedi eu cynllunio i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mathemategol ar draws amrediad eang o weithdrefnau. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gynyddol hyderus ac yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae staff y disgyblion ieuengaf yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae'r cyfleoedd hyn yn rhoi pwrpas cynyddol i ddysgu'r disgyblion ac yn datblygu eu hannibyniaeth yn gynyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hynaf yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gynyddol hyderus mewn amryw  gyd-destunau bwriadus.

## A4. Sicrhau bod adborth athrawon a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymateb iddo yn cael ei weithredu'n fwriadus i'w cefnogi i wella eu gwaith a chodi safonau

Mae arweinwyr wedi darparu hyfforddiant buddiol i'r staff am wahanol agweddau o asesu a holi effeithiol. Mae hyn yn cynnwys canllaw defnyddiol o ddulliau adborth disgwyliedig yr ysgol. O ganlyniad, mae staff yn darparu adborth pwrpasol, a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wella eu gwaith.

Yn dilyn ymweliad ag ysgolion cyfagos, mae'r pennaeth dros dro wedi diweddaru'r polisi asesu, marcio ac adborth ac wedi cyflwyno cod marcio bwriadus ar draws yr ysgol. Mae hyn yn arfogi staff i rannu adborth amserol ac ystyrlon, sy'n galluogi bron bob disgybl i gwblhau tasgau'n llwyddiannus a gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn esbonio sut mae adborth a thargedau yn eu cefnogi i wella eu gwaith yn gynyddol annibynnol. Erbyn hyn, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'r hyn maent wedi gwneud yn dda, a'r hyn sydd angen ei wella. Mae athrawon yn parhau i ymchwilio i ddulliau adborth effeithiol er mwyn ymateb i anghenion unigol y disgyblion.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.